**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ER
Ein cyf/Our ref LG/00040/21

Cynghorydd Edgar Owen
Cadeirydd Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

1st Chwefror 2021

Annywl Edgar,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr am dân gwyllt.

Rwy'n rhannu pryderon Cyngor Gwynedd ynghylch effaith sŵn tân gwyllt ar bobl fregus ac ar anifeiliaid. Ym mis Tachwedd, bu'r Prif Weinidog a finnau'n siarad am y pwnc yn y Senedd, lle cafwyd cefnogaeth eang o blaid gwella'r rheoliadau yn y maes.

Gweinidogion Llywodraeth y DU o dan Ddeddf Tân Gwyllt 2003 sy'n gyfrifol am reoliadau gwerthu a defnyddio tân gwyllt yng Nghymru a Lloegr. Ysgrifennais at Lywodraeth y DU i gofnodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i argymhellion Pwyllgor Deisebau Tŷ'r Cyffredin i reoleiddio tân gwyllt yn well. Rwyf wedi galw felly ar Lywodraeth y DU i dynhau'r rheoliadau ar werthu a defnyddio tân gwyllt ar lefel Prydain Fawr, er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol.

O gofio bod ein hardaloedd mwyaf poblog mor agos at siopau yn Lloegr a'i bod mor rhwydd siopa ar-lein, rwy'n credu bod angen i bawb weithredu gyda'i gilydd ledled Prydain Fawr i sicrhau bod y tân gwyllt sydd ar gael ar gyfer eu gwerthu i'r cyhoedd yn dawelwch ac yn cael eu defnyddio'n llai aml.

Rwyf wedi gofyn am gyfarfod teirffordd â'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am bolisi tân gwyllt yn yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a Llywodraeth yr Alban cyn gynted ag y medrir i drafod y ffordd ymlaen.

Yr eiddoch yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.